



Prosiect gan Undeb Bedyddwyr Cymru (UBC) a gefnogir gan BMS World Mission.<sup>1</sup>

**Crynodeb:**

Edrych am her? Ansicr am beth mae Duw eisiau ei wneud gyda dy fywyd? Beth am gymryd blwyddyn allan i ddod o hyd i'r ateb ac i ystyried o ddifrif ble mae E'n dy arwain di?

Yn dilyn llwyddiant y cynllun yn y blynyddoedd diweddar, mae Undeb Bedyddwyr Cymru (UBC) yn awyddus i barhau i fuddsoddi yn y genhedlaeth nesaf drwy gynnig blwyddyn gap arall i hyfforddi ac arfogi tîm o 3 o bobl ifanc i gael profiad o fyw'n genhadol ochr yn ochr ag eglwysi lleol.

Bydd y flwyddyn gap hon yn cynnwys cymysgedd gofalus o hyfforddiant, profiad ymarferol o genhadaeth yng Nghymru trwy'r eglwys leol, meithrin ysbrydol ac wrth gwrs, llawer o hwyl!

Bydd y flwyddyn gap yn dechrau ym Medi 2020 gyda mis o hyfforddiant a sgiliau tîm ymhlith pobl ifanc fydd yn cael eu paratoi ar gyfer cenhadaeth debyg. Bydd hyn yn cynnwys amser mewn canolfan gweithgareddau awyr agored yng Nghymru sydd â'r bwriad i fod yn sbri ond hefyd er mwyn i ti ddysgu llawer am dy hun hefyd.

Wedi dy baratoi yn iawn, byddi'n mynd i ffwrdd gyda dy dîm i dreulio chwe mis yn gweithio gydag eglwys neu eglwysi sy'n perthyn i Undeb Bedyddwyr Cymru sy'n arloesi yn eu cenhadaeth. Wrth i ti bartneri â gwaith cenhadol sy'n bodoli'n barod, fe gei di syniad o sut beth yw cenhadaeth yn lleol ac mewn ardaloedd anodd. Bydd dy amser gyda'r eglwysi hynny yn dy herio, dy ymestyn ac yn dyfnhau dy ffydd. Byddi'n dysgu i ddibynnu'n llwyr ar Dduw ac yn darganfod doniau nad oeddet ti'n gwybod oedd gennyt!

Yn ystod y flwyddyn, bydd Tîm i Gymru yn cael cyfle i weld a phrofi golygfeydd a synau cenhadaeth wrth weithio dramor yn Kolkata, India drwy fynd ar daith fer genhadol yno. Bydd y trip yma'n help i chi fel tîm fyfyrion a chymharu cenhadaeth mewn gwahanol lefydd a chael blas o waith BMS World Mission.

Ar ddiwedd y flwyddyn gap, bydd Tîm i Gymru yn gwneud taith fer o eglwysi yng Nghymru a fydd yn rhoi profiad i chi defnyddio rhai o'ch doniau newydd i ysbrydoli a rhannu'ch profiadau gydag eraill.

---

<sup>1</sup> Mae UBC yn dymuno cydnabod eu diolchgarwch i BMS World Mission am gael defnyddio rhannau o 'Information Pack for Action Teams' wrth baratoi'r pecyn hwn.

Byddwch hefyd yn cael cyfle i fynychu Cynhadledd flynyddol y Bedyddwyr a gogoneddu Duw wrth rannu eich profiadau ac annog eraill yn eu gwaith cenhadol.

Mae'r model ar gyfer blwyddyn gap Tîm i Gymru wedi ei seilio ar flwyddyn Action Team y BMS sy'n cael ei nabod fel blwyddyn gap Cristnogol o ansawdd. Mae'r BMS wedi bod yn rhoi profiadau i bobl ifanc gael profiad o genhadaeth drwy'r Action Team am dros 20 mlynedd. Ein nod yw cynnig profiad tebyg drwy ddefnyddio'r un model er mwyn cynnig profiad cenhadol i Gristnogion o Gymru yng Nghymru.

#### **Amcanion:**

- I ddarparu pobl ifanc â blas o genhadaeth a'r profiad o blannu eu hunain mewn lleoliad a gweithio gyda'r eglwys leol
- I ganiatáu i bobl ifanc i dyfu yn eu perthynas bersonol â Iesu Grist drwy roi eu ffydd ar waith mewn ffordd radical
- I ddarparu cyfle i bobl ifanc sydd â galwad i fyw'n genhadol yng Nghymru i gymryd cam yn y cyfeiriad hwnnw
- I gyrraedd nod ehangach UBC drwy arfogi cenhedlaeth newydd i'r dasg o gyfeirio pobl at Iesu Grist drwy'r eglwys leol, efengylu a gweithredu'n gymdeithasol
- I annog ac ysbrydoli eglwysi yng Nghymru i gefnogi'r genhedlaeth newydd

#### **Dethol:**

Credwn fod gan Dduw gynllun ar gyfer pawb fydd yn gwneud cais ac ar bob cam o'r broses ddethol byddwn yn ceisio dirnad Ei ewyllys i'r unigolion ac ai'r Tîm i Gymru yw'r cam cywir iddyn nhw. Bydd y broses ddethol yn cynnwys:

- Ffurflen gais (i'w llawrlwytho o'n gwefan)
- Derbyng geirda
- Mynychu diwrnod dethol (dim byw i'w ofni!)
- Datgelu record droseddol (DBS)
- Cyflawni'r hyfforddiant i lefel foddhaol (rydym yn cadw'r hawl i dynnu unigolion o'r cynllun os cwyd mater a allai fod yn andwyol i'r tîm, eglwysi UBC sy'n rhan o'r cynllun neu i'r unigolion eu hunain)
- Cytuno i barchu Cod Ymddygiad y flwyddyn gap

Yn dilyn y Diwrnod Dethol, byddwn yn gadael i ti wybod os wyt ti wedi cael lle yn y Tîm i Gymru.

Byddwn yn ystyried yn ofalus a wyt ti'n ffitio i mewn i'r tîm y byddi'n fwyaf effeithiol i Dduw. Byddwn yn ystyried sawl ffactor yn weddigar. Maent yn cynnwys:

- Arweiniad Duw
- Natur dy ddoniau
- Materion neu anhawsterau iechyd
- Cydbwysedd y tîm

- Anghenion yr eglwysi lleol lle y byddi di'n gweithio

Gofynnir i ymgeiswyr i ymddiried a pharchu'r penderfyniadau a wneir gan Undeb Bedyddwyr Cymru gydag arweiniad Duw. Os na chei dy dderbyn i'r Tîm i Gymru, byddwn yn ceisio gweithio gyda thi i ddod o hyd i flwyddyn gap wedi ei seilio mewn eglwys arall yng Nghymru, os dymuni, yn y dyfodol.

Pan gynigwn le i ti yn y tîm, byddwn ni'n gofyn i ti gadarnhau dy fod ti'n derbyn. Gofynnwn i ti anfon blaendal na ad-delir wrth gadarnhau (gweler yr adran am Gyllid).

### **Hyfforddiant – pedair wythnos**

Byddi'n derbyn hyfforddiant cynhwysfawr a chyffrous a fydd yn dy arfogi ar gyfer cenhadaeth yn emosiynol, ymarferol ac ysbrydol. Byddwn yn ceisio datblygu dy hyblygrwydd, dy galon i wasanaethu a'th ostyngeddwrwydd – nodweddion allweddol a fydd angen arnat yn ystod y flwyddyn!

### **BMS International Mission Centre (IMC)**

Bydd yr hyfforddiant yn cael ei gynnal yn International Mission Centre (IMC) BMS World Mission lle mae holl weithwyr y BMS yn derbyn hyfforddiant cyn gweithio dramor. Bydd y Tîm i Gymru yn ymuno â thimoedd eraill BMS a byddan nhw'n paratoi i wasanaethu dramor. Bydd manteision mawr i chi fel tîm o dderbyn hyfforddiant o ansawdd uchel gan arbenigwyr y BMS a threulio amser â phobl ifanc o feddylfryd tebyg sydd â chalon i wasanaethu Duw. Er mai yng Nghymru y byddwch yn gwasanaethu, nid dramor, bydd y BMS yn sicrhau y bydd yr hyfforddiant yn berthnasol. Bydd rhai dyddiau pan fydd yr hyfforddiant yn ymwneud â byw dramor felly bydd hyfforddiant amgen yn cael ei ddarparu i chi gan UBC neu staff IMC.

Bydd y rhan fwyaf o'r hyfforddiant yn yr *International Mission Centre (IMC)* ym Birmingham yn delio â phynciau fel a ganlyn:

- Siarad cyhoeddus
- Efengylu
- Gwaith tîm
- Gwaith plant
- Sgiliau gweithio mewn tîm – hyfforddiant antur
- Cynllunio rhaglen waith
- Crefyddau gwahanol
- Ymwybyddiaeth ddiwylliannol
- Beth yw cenhadaeth?
- Gofal iechyd a glendid

Bydd pedwar diwrnod o'r hyfforddiant yn cael ei gynnal mewn canolfan weithgareddau Gristnogol lle byddwch yn meithrin perthynas agos gydag aelodau eraill y tîm fel erioed o'r blaen! Bydd pobl yn dy weld ar dy waethaf: cei dy ymestyn, byddi wedi blino'n lân a wedi dy herio. Dyma'r amser pan ddei di i adnabod ac i dyfu gyda'ch gilydd fel tîm.

### **Ar leoliad gydag eglwysi**

Am ddau benwythnos yn ystod y mis hyfforddiant, bydd pob tîm yn treulio amser yn byw a gweithio gyda dwy eglwys Bedyddwyr lleol – cyfle i roi eich sgiliau ar waith yn y byd go iawn. Bydd digon o gyfle i:

- Gweld eich cryfderau a'ch gwendidau ar waith
- Cymryd rhan yng ngweithgareddau'r eglwys a dweud wrthyn nhw pam eich bod yn gwneud y cynllun Tîm i Gymru
- I fod yn gynrychiolydd i Dduw, BMS World Mission ac Undeb Bedyddwyr Cymru
- Derbyn beirniadaeth gadarnhaol ganddynt i'w roi ar waith pan fyddi di'n gwasanaethu yn ardal dy leoliad.

### **Comisiynu**

Bydd gwasanaeth comisiynu fer i ti a'r tîm cyn i chi adael IMC. O IMC, byddwch yn mynd adref am gyfnod byr cyn ffarfwelio a mynd i ardal eich lleoliad . Peidiwch ag anghofio trefnu eich bod yn cael peth amser i siarad yn eich eglwys adref er mwyn iddyn nhw ffarfwelio'n iawn â chi.

### **Lleoliad cenhadaeth**

Gall y lleoliad hwn d'arwain di i unrhyw ardal yng Nghymru; cymoedd y de, gwyrddni'r canolbarth neu arfordir y gogledd, i eglwys gymysg mewn tref neu ddinas neu gymdeithas agos mewn gofalaeth wledig. Ond, ble bynnag y cei dy leoli, byddi di'n sicr o fod ar flaen yr ymgyrch genhadu. Bydd yr eglwysi lleol yn cydweithio'n agos ag Undeb Bedyddwyr Cymru i drefnu cynllun gwaith cyffroes, heriol a buddiol ar eich cyfer fel tîm. Wrth ichi ymuno ag eglwysi a chynulleidfaoedd lleol yn eu gwaith cenhadol cewch gyfle i feithrin dealltwriaeth a phrofiad personol o wahanol cyd-destunau cenhadol a gwirionedd ymarferol gwaith cenhadol yng Nghymru heddiw.

Lle newydd, pobl newydd a diwylliant newydd bron bob dydd...yr annisgwyl! Dyma gyfnod lle byddwch yn gweld ystyr newydd i'r dywediad 'dibynnu ar Dduw'. Bydd y rhaglen waith yn cynnwys y canlynol, ond byddwch yn barod i unrhyw beth!

- Gwaith plant a ieuencid
- Dulliau gwahanol o efengylu
- Gwaith cenhadol
- Cefnogi gwaith yr eglwysi
- Gwaith yn y gymuned/gofal
- Cerddoriaeth, drama a dawns
- Rhannu tystiolaeth / adeiladu perthynas

### **Paratoi i'r daith – naw diwrnod**

Ar ôl i'ch lleoliad cenhadaeth orffen gofynnir i ti a'r tîm i dreulio tua tair wythnos yn ymweld ag eglwysi gwahanol o gwmpas Cymru. Yn ystod y cyfnod hwn yn IMC, cewch gyfle i wella eich sgiliau er mwyn gallu siarad â bobl o bob oed mewn eglwysi UBC. Amser i gyfuno eich storïau, eich profiadau a'r storïau personol ynghylch sut mae Duw wedi gweithio drwy'r Tîm i Gymru a bod yn barod i gyflwyno hyn mewn sawl ffordd! Cewch gyfle i fynd yn ôl i'r eglwys lle buoch yn eich mis cyntaf i sôn wrthyn nhw beth rydych wedi bod yn ei wneud.

### **Taith Genhadol**

Nesaf, bydd Tîm i Gymru yn cael cyfle i weld a phrofi golygfeydd a synau cenhadaeth wrth weithio dramor yn Kolkata, India drwy fynd ar daith fer genhadol. Bydd y trip yma'n help i chi fel tîm fyfyrion a chymharu cenhadaeth mewn gwahanol lefydd a chael blas o waith BMS World Mission

### **Ôl-drafodaeth (Debrief) – tri diwrnod**

Yn ystod eich lleoliad cenhadaeth byddi wedi profi llawer o bethau newydd, rhai pethau anodd a nifer o bethau fydd yn newid dy fywyd. Dros y diwrnodau yma byddwch fel tîm yn aduno ag Action Teams tramor y BMS, myfyrion ar eich profiadau a thrafod sut i'w cymhwyso i'ch bywyd yn y dyfodol.

### **Taith – tair wythnos**

Byddi di a'r tîm yn treulio tair wythnos mewn tair ardal wahanol. Nodir, bydd yr Action Teams BMS yn gwneud taith o 8 wythnos, ond bydd y daith yma yng Nghymru'n para 3 wythnos. O fewn yr ardaloedd gwahanol byddwch yn ymweld ag eglwysi, siarad â chynulleidfaoedd, grwpiau bach neu blant ac ieuentid am eich profiadau. Byddwch yn barod am: sawl gwely gwahanol, cymryd gwersi Addysg Grefyddol mewn ysgol, llawer o lasagnia, arwain gwasanaethau, diwrnod yr wythnos o wyliau, gwasanaethau ysgol, ciniawau rhost, rhannu eich tystiolaeth, disgwyl Duw i symud, arwain astudiaethau Beiblaidd, cyfle i siarad â channoedd o blant ac oedolion am Dduw a rhannu o'ch profiadau fel tîm. Mae pobl sydd wedi gwneud yr Action Teams yn y gorffennol wedi dweud cymaint maen nhw wedi mwynhau'r rhan yma o'r flwyddyn gap.

### **Cyllid**

Bydd angen i ti gyfrannu £2,500 tuag at gyfanswm cost y cynllun.

Manylion y costau:

<b>Ar ôl i ti gyfrannu £2,500, ni fydd rhaid i ti dalu am y canlynol:</b>	<b>Costau personol ychwanegol:</b>
Costau hyfforddiant ac ôl-drafodaeth	Teithio i ac o'r International Mission Centre, Birmingham ar gyfer hyfforddiant/ôl-drafodaeth
Llety a chynhaliadau bwyd	Teithio i ac o faes awyry ger Llundain
Taith awyren a llety taith i Kolkata	Pigidadau a thriniaeth gwrth-falaria nad yw'n cael ei ddarparu gan eich GP ar yr NHS
Gweinyddiaeth trefnu lleoliad	Ffôn symudol (er bydd cyswllt we di-wifr yn cael ei ddarparu yn y llety)

### **Blaendal a dyddiad cau y taliad**

Gan y bydd costau a fydd angen eu talu cyn i'r tîm ddechrau eu gwaith gofynnwn i ti dalu blaendal o £150 y pen na fydd yn cael ei ad-dalu. Dylid anfon hwn i Undeb Bedyddwyr Cymru gyda llythyr yn derbyn dy le yn y cynllun o fewn saith diwrnod gwaith o dderbyn y llythyr yn cynnig lle.

Erbyn mis Awst byddwn yn yn dweud wrthyf faint fydd y daith i Kolkata gyda BMS World Mission yn ei gostio. Tynna'r y swm hynny i ffwrdd o'r £2,500 a'i gadw ar wahân, a thalu'r hyn sy'n weddill i Undeb Bedyddwyr Cymru erbyn diwedd Awst (dylid anfon pob sic i'r swyddfa yng Nghaerfyrddin). Yna, bydd disgwyl i ti dalu BMS World Mission yn uniongyrchol am y daith i Kolkata a byddwn yn dweud wrthyf sut i fynd ynghylch hynny.

### **Sut i godi'r arian?**

Mae sawl ffordd o wneud codi arian yn hwyl ac yn haws nag mae'n swnio. Mae adran ynghylch sut i godi arian ar wefan y BMS: [www.bmsworldmission.org/fundraise](http://www.bmsworldmission.org/fundraise) gan gynnwys ffurflen noddi y gellir ei lawrlwytho.

Un ffordd boblogaidd o godi arian yw gwneud hynny ar-lein gan ddefnyddio gwefannau fel '[Just Giving](#)' neu '[Crowd Funding](#)'. Wrth i ti rannu dy gynlluniau a gofyn i bobl gyfrannu ar y cyfryngau cymdeithasol fel Facebook ac ati, cei dy synnu gan ddiddordeb pobl a'i hawydd i fuddsoddi yn dy ddyfodol a'th gefnogi yn dy daith gyda Duw.

Paid a phryderi am godi arian os gweli di'n dda. Bydd angen i ti feddwl yn greadigol, a chofia ymddiried yr holl bethau hyn i Dduw a thrystio y bydd Ef yn darparu. Mae yna bobl sydd wedi gwneud blwyddyn Action Team y BMS sydd wedi eu profi i'r eithaf, ond mae ganddynt storiâu ynglŷn â darpariaeth hael Duw.

Os byddai'n cael trafferth codi'r arian tua dechrau mis Awst, byddem yn hoffi clywed gennyf ac ymuno gyda thi mewn gweddi. Efallai bydd modd i ni roi syniadau i ti a chynghor na fyddi wedi ei ystyried yn flaenorol. Mae'r Tîm i Gymru yn DÎM ac fel tîm bydd rhaid i chi dynnu at eich gilydd i sicrhau nad oes neb yn cael ei adael ar ôl. Os hoffet roi i rywun arall sy'n cael trafferth i godi'r arian yna byddem yn hoffi clywed gennyf.

Os ar unrhyw bwynt y byddet yn hoffi cael cynghor am godi arian, eisiau gofyn cwestiwn am gyllid neu'n ei chael hi'n anodd i godi'r arian yna PLÎS cysylltwch â ni.

### **Gwybodaeth bellach:**

#### **Gwyliau a gwyliau tîm**

Nid yw'r cynllun hwn i'r gwan calon, diog neu rywun sydd jyst eisiau blwyddyn i ffwrdd! Yn ystod y flwyddyn byddi tîm yn cael diwrnod yr wythnos i ffwrdd. Os bydd y tîm yn gweithio ar nosweithiau yna gallwch gymryd bore neu brynhawn i ffwrdd yn lle hynny. Fel rhan o'r lleoliad cenhadaeth, disgwylir i'r tîm fod ar gael i wasanaethu'r eglwysi lleol dros benwythnosau, ar wahân i wyliau penodol yn ystod y cynllun. Er y byddi o fewn cyrraedd i'th deulu oherwydd byddwch yng Nghymru, nid ydym yn cynghori i ti deithio adref i weld dy deulu ac os hoffet fynd i'w gweld dylid trafod a chytuno ar amser i wneud hynny gyda'r goruchwylwyr. Bydd gennyf wyliau dros y Nadolig ac ar ôl dychwelyd o'r India a rhai dyddiau

eraill sydd eto i'w cadarnhau yn yr amserlen. Bydd rhai diwrnodau hyfforddiant eraill i'w cynnwys yn yr amserlen i roi gofod ac amser i ti.

### **Iaith**

Nid yw'r gallu i siarad Cymraeg yn angenrheidiol i fod yn rhan o'r Tîm i Gymru. Fodd bynnag, mae parodrydd i ddysgu yn elfen hanfodol yng ngwaith cenhadol, fel pob iaith mae'n syndod faint gall rhywun ei ddysgu pan fo rhaid, a'r mwyaf y'i defnyddi di hi y mwyaf y bydd dy sgiliau iaith yn gwella. Felly, paid a gadael i'th sefyllfa iaith dy rwystro rhag gwneud cais.

### **Visa a phasbort**

Sicrha, os gweli di'n dda, fod gen ti basbort cyfredol ar gyfer dy amser dramor, a chwe mis yn ychwanegol ar ôl y dyddiad dychwelyd.

### **Gwasanaeth datgleu a gwahardd**

Bydd Tîm i Gymru yn gweithio gyda phlant a ieuenctid, felly mae'n rhaid i bob aelod o'r tîm gael gwiriad cofnod troseddol oddi wrth y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Oherwydd natur gwaith UBC, nid yw'r gyfraith ynghylch adfer troseddwyd yn gymwys. Os gwelwch yn dda, siarada â ni os yw hyn yn debygol o fod yn broblem. Bydd pob gwybodaeth yn cael ei gadw'n gyfrinachol.

### **Camau nesaf**

1. Yn dilyn y Diwrnod Dethol, byddi di'n derbyn llythyr yn dweud os wyt ti wedi cael lle yn y Tîm i Gymru. Caiff unigolyn ei dderbyn ar sail y rhagdyb y bydd yn cyflawni'r hyfforddiant ac y bydd ganddo/ganddi wiriad cofnod troseddol derbyniol.
2. Dweud wrth UBC dy fod yn derbyn lle ar y tîm o fewn 7 diwrnod gwaith o dderbyn cynnig, ynghyd â blaendal o £150 na ellir ei ad-dalu (bydd hyn yn cyfrif tuag at y £2,500)
3. Dechrau codi ymwybyddiaeth am dy flwyddyn gap yn dy eglwys ac ymhlith ffrindiau a chydabod.
4. Hel syniadau am godi arian a chynllunio sut y byddi'n codi'r arian dros y misoedd nesaf
5. Aros i dderbyn dy becyn paratoi Tîm i Gymru (anelwn i gael hwn i ti erbyn diwedd Gorffennaf)
6. Parhau i weddio a chyflwyno'r flwyddyn i Dduw mewn gweddi.

Rhowch alwad i Christian 07954706780 neu ebost [christian@ubc.cymru](mailto:christian@ubc.cymru) os oes gennyt unrhyw gwestiynau pellach.

### **Pwy 'di pwy? Manylion Cyswllt:**

#### **Rholwyr a gweinyddwyr Tîm i Gymru:**

Parch. Simeon Baker, Cyfarwyddwr Cenhadaeth, UBC [simeon@ubc.cymru](mailto:simeon@ubc.cymru) / 01267 610344  
Dr Christian Williams, Cydlynnydd Cenhadaeth, UBC [christian@ubc.cymru/](mailto:christian@ubc.cymru/)

Mae Simeon a Christian yn gweithio i Undeb Bedyddwyr Cymru a nhw sydd â throsolwg dros y flwyddyn gap.

### **BMS World Mission**

Ben Drabble

Cydlynnydd cynlluniau byr-dymor

Mark a Claire Ord

Cyfarwyddwyr IMC

Mae Ben yn trefnu Action Teams y BMS a Mark a Claire Ord yn gyfarwyddwyr y Ganolfan Genhadaeth Rhyngwladol ym Birmingham. Byddwch yn gweld tipyn ohonynt yn ystod yr hyfforddiant ac unrhyw adreg pan fyddwch ym Birmingham, a Ben fydd hefyd yn trefnu eich taith i Kolkata, India.

### **Rôlau o fewn Tîm i Gymru**

Nid oes arweinydd tîm o fewn y tri unigolyn a fydd yn rhan o Tîm i Gymru. Bydd rôl benodol yn cael ei roi i bob un fel a ganlyn. Nid oes disgwyl i'r cydlynnydd wneud POPETH, ond dylai sicrhau fod pethau'n cael eu gwneud a dylent fod yn bwynt cyswllt i UBC a goruchwylwyr eu lleoliad cenhadaeth. Penderfynir pwy fydd cydlynnydd beth yng nghyfnod yr hyfforddiant.

#### Cydlynnydd Cyfathrebu

Bydd UBC yn cyfathrebu yn uniongyrchol gyda'r cydlynnydd cyfathrebu; yr unigolyn yma fydd â'r cyfrifoldeb dros gyfathrebu'r tîm gyda'r goruchwylwyr a rheolwyr Tîm i Gymru yn UBC.

Bydd e/hi yn:

- Brif gyswllt a'r ddolen gyfathrebu rhwng UBC â'r tîm
- Brif gyswllt rhwng y tîm â'r goruchwylwyr
- Gyfrifol am sicrhau fod blogiau yn cael eu cwblhau ar amser

#### Cydlynnydd Cyllid

Bydd yr unigolyn yma'n cymryd cyfrifoldeb dros gyllid y tîm. Bydd hyn yn cynnwys arian am fwy, llety, costau teithio a.y.b., sy'n daladwy gan y tîm, ond nid am arian personol aelodau'r tîm.

Bydd e/hi yn:

- Cadw cofnod ysgrifenedig o gostau'r holl dîm ac unrhyw roddion a dderbynnir yn ystod y flwyddyn i'r prosiect
- Gyfrifol am ddiogelwch arian y tîm
- Cysylltu â goruchwylwyr yn yr eglwysi lleol ynglŷn â rhyddhau arian i'r tîm fel sy'n briodol
- Sicrhau fod gan y tîm ddigon o arian i dalu am gostau sy'n dod ar eu traws

#### Cydlynnydd dyletswyddau ymarferol a bywyd ysbrydol

Bydd yr unigolyn yma'n trefnu'r cynllun coginio, prynu bwyd a chadw llety'n lân a thaclus a bydd e neu hi hefyd yn gyfrifol am fewnbwn ysbrydol wrth drefnu amser defosiynol i'r tîm.

Bydd e/hi yn:

- Sicrhau cydlynu'r siopa a bwyta fel bod pryd o fwyd ar gael pan fo angen
- Sicrhau fod llety'r tîm yn cael ei gadw'n lân, diogel a thaclus



- Llunio rota i'r tîm gyflawni'r uchod
- Gwneud asesiad risg pan fyddant yn cyrraedd y lleoliad a phryd bynnag bo'r angen
- Hyddysg mewn Cymorth Cyntaf ac wedi derbyn cymhwyster i wneud hynny
- Meddu gwybodaeth am faterion iechyd y tîm (gan gynnwys cit Cymorth Cyntaf) ac yn cysylltu â goruchwylwyr/UBC am faterion iechyd
- Sicrhau bod y tîm yn cyfarfod yn rheolaidd i weddio, astudio'r Beibl ac addoli
- Trefnu bod llyfrau/nodiadau ar y Beibl i gynorthwyo gyda hyn
- Cysylltu ag arweinwyr eraill i roi mewnbwn i'r tîm ar ffurf gweddi, dysgu neu anogaeth

## Côd Ymddygiad

Ble bynnag yr ei di, fe fyddi di'n gosod esiamp l i eraill. Bydd dy fywyd yn cael ei wyllo'n ofalus a byddi'n cael dy ystyried yn 'role model' Cristnogol. Byddi'n cynrychioli Undeb Bedyddwyr Cymru a BMS World Mission yn ogystal â'r eglwysi lleol lle y byddi di'n gweithio a'r goruchwylwyr lleol. Yn fwyaf pwysig, byddi'n cynrychioli Crist (2 Corinthiaid 5:20). Bydd rhaid i ti ymddwyn yn ddidwyll gan ystyried pobl eraill. Diolch i Dduw am y cyfle yma, i ddangos i eraill fywyd Crist o'th fewn, wrth i ti fyw dy fywyd o'u blaenau.

Mae tair elfen i'r Cod Ymddygiad y gofynnwn i ti gytuno iddyn nhw: gwasanaethu Duw uwchben popeth, rhoi anghenion y tîm uwchlaw dy hun a bod yn sensitif yn ddiwylliannol (ac ysbrydol) lle'r wyt ti.

Mewn mwy o fanylder:

- Parchu eich tîm: bydd dy berthynas gydag aelodau eraill dy dîm yn diffinio dy flwyddyn fel aelod o'r Tîm i Gymru yn fwy na dim byd arall. Rho dy dîm cyn ti dy hun ac ymroi'n llwyr iddynt. Cofia Effesiaid 4:2 – 'Byddwch yn ostyngedig ac addfwyn bob amser; byddwch yn amyneddgar, a goddef beiau eich gilydd mewn cariad'. Ceisiwch ddatrys unrhyw anghydweld yn gyflym ac mewn modd aeddfed.
- Parchu arweinwyr: mae disgwyl i chi barchu eich arweinwyr a'r goruchwylwyr a staff UBC/BMS yn ystod y lleoliad cenhadaeth a thrwy'r flwyddyn i gyd.
- Parchwch y diwylliant lleol, yn y dref ac yn yr eglwys: gwnewch bob ymdrech i ymdoddi i fewn i'r gymuned leol/eglwys.
- Dim perthynas ecsgliwsif: mae perthynas ecsgliwsif yn gallu niweidio deinameg y tîm. Cadwch unrhyw berthynas yn gyfeillgarwch a pheidiwch â ffurfio cliques. Gofynnwn i chi beidio dechrau perthynas rhamantus gydag aelod arall o'r Tîm i Gymru neu'r Action Teams tan fod y flwyddyn wedi gorffen – gallai hyn fynd â dy sylw, ac rydyn ni eisiau i'th sylw fod ar Dduw a'r genhadaeth mae Ef wedi galw arnat ti i'w wneud. Mae ffurfio perthynas rhamantus gyda rhywun yn lleol (neu hyd yn oed ei bod hi'n edrych felly i bobl eraill) yn gwbl annerbyniol.
- Dim alcohol, ysmygu neu gyffuriau anghyfreithlon: mae ysmygu ac yfed alcohol yn gallu niweidio tystiolaeth Gristnogol y tîm.
- Gadael cartref yn gorfforol ac mewn ysbryd: mae'r cynllun yn ymrwmo i Dduw dy amser, egni a dy hun. Gofynnwn i ti yn ystod y cyfnod o fod yn rhan o'r Tîm i Gymru dy fod yn ymroi i'r cynllun yn llawn. Cadw lygad ar y nifer o alwadau Skype a'r e-byst rwyf ti'n anfon adref. Byddwch yn atebol i'ch gilydd. Mae gofyn i ti edrych ar ôl

aelodau dy dîm yn hytrach nag adref, a cheisia taflu dy hun i bob cyfle mae diwylliant newydd yn ei roi. Ar gyfer Action Teams, dyma un o'r disgyblaethau mwyaf pwysig.

- Prosesau disgyblu a chwyno: wrth arwyddo'r ffurflen dderbyn i'r cynllun Tîm i Gymru rwyf yn cytuno i gadw'r Côt Ymddygiad (fel y gwelir uchod). Bydd unrhyw aelod sy'n torri'r ymrwymiad yn cael ei ddisgyblu yn ôl ein prosesau disgyblu.
- Os fydd gen ti gwyn yn erbyn un o'ch arweinwyr, goruchwylwyr neu staff UBC, dylet yn gyntaf siarad â thîm rheoli a gweinyddu UBC. Os yw'r gwyn yn erbyn y tîm rheoli a gweinyddu, yna gelli di siarad ag aelod arall o staff a fydd yn dilyn protocol UBC/BMS.

### **Atebolrwydd**

Mae UBC yn eithrio atebolrwydd dros niwed bersonol neu farwolaeth a ddioddefir gan aelod o'r tîm o ganlyniad i:

- Digwyddiadau tu allan i'n rheolaeth yr arweinydd dynodedig
- Gweithred gan aelod o'r tîm sy'n wthun i'r Côt Ymddygiad gan UBC
- Gweithred gan aelod o'r tîm sy'n anghyfreithlon
- Gweithred gan aelod o'r tîm sy'n mynd yn groes i gyfarwyddiadau UBC.

